

Cofnodion y **Pwyllgor Cefnogaeth Covid-19 o bell**, a gynhaliwyd trwy Zoom ar **Ddydd Mawrth 6 Gorffennaf 2021** am 12 o'r gloch.

**YN BRESENNOL:** - Eu Deilyngdod Y Maer Cyng Owen Hurcum (Cadeirydd), Y Dirprwy Faer Gwynant Roberts, Cyng Les Day

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig

### **i/21 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Cynghorwyr John Wyn Williams, Ifan James, Luke Tugwell.

### **ii/21 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim.

### **iii/21 CEISIADAU GRANT**

#### **i. Food Share**

Penderfynwyd i roi £500 i Food Share (Mehefin 2021)

#### **ii. Coed Mawr**

Penderfynwyd i roi £500 i Coed Mawr (Mehefin 2021)

### **iv/21 DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**

Mae Cyngor y Ddinas yn aros am ddiweddariad o Cyngor Gwynedd ar y cais £7,500 CIST Gwynedd, a fydd yn helpu banciau bwyd Bangor os yn llwyddiannus. Mae cynllun grant tlodi bwyd ac ansicrwydd bwyd newydd Llywodraeth Cymru wedi'i lansio, a fedrir helpu banciau bwyd Bangor yn y dyfodol. Mae'r Cyfarwyddwr Dinesig wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn os maent yn mynd i ymgeisio am y cynllun.

### **v/21 UNRHYW FUSNES ARALL**

Dim.

### **vi/21 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

10fed Awst am 12pm.

Gorffennodd y cyfarfod am 12.16 pm